# CYDWEITHFA FABWYSIADU'R FRO, Y CYMOEDD A CHAERDYDD

# DATGANIAD O DDIBEN 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

**CYNNWYS**


1. Cefndir

2. Nodau ac Amcanion y Gwasanaeth

3. Gwasanaethau a Ddarperir:

    a. Recriwtio ac asesu
    b. Mabwysiadu trawswladol
    c. Mabwysiadu gan lys-riant / heb fod drwy asiantaeth
    d. Canfod Teulu
    e. Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu

4. Y Broses Gwyno

5. Monitro a Gwerthuso'r Gwasanaeth

6. Y Strwythur Rheoli a Staffio

7. Manylion Cyswllt Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

## CYFLWYNIAD

Mae Rheoliad 4 ac Atodlen 1 o Reoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr gwasanaeth ddarparu datganiad ysgrifenedig sy'n nodi nodau ac amcanion yr asiantaeth, y gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir. Mae'r Datganiad o Ddiben hwn ar gael ar gais i blant y gallent gael eu mabwysiadu, eu rhieni a gwarcheidwaid, darpar fabwysiadwyr, teuluoedd mabwysiadol sydd angen gwasanaethau cymorth, pobl sydd wedi'u mabwysiadu, teuluoedd biolegol a staff. Mae ar gael yn Gymraeg a Saesneg a bydd ar gael mewn ieithoedd neu fformatau eraill yn ôl yr angen.

## CEFNDIR

Mae Cydweithfa Fabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd (FCCh) yn dwyn ynghyd wasanaethau mabwysiadu'r awdurdodau lleol canlynol:

- Cyngor Caerdydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bro Morgannwg

Mae'n un o'r pump Cydweithredfa ranbarthol sy'n rhan o'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC) yng Nghymru. Cyngor Bro Morgannwg sy'n cynnal y Gydweithredfa.

Ym mis Mawrth 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gyfarwyddiadau (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) (Cymru) 2015, a elwir yn "Pwerau'r Cyfarwyddiadau", sy'n rhagnodi'r ardaloedd rhanbarthol a'r strwythur llywodraethu ar gyfer y gwasanaeth ar lefel genedlaethol a rhanbarthol.

Daeth y Gydweithredfa'n weithredol ar 1 Mehefin 2015 pan unodd gwasanaethau mabwysiadu o fewn y pedwar awdurdod partner i ffurfio un gwasanaeth rhanbarthol integredig.

Cyfeiriad swyddfa a manylion cyswllt FCCh yw:

Cydweithfa Fabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd,
Tŷ Jenner,
Heol Gladstone,
Y Barri,
CF63 1NH

0800 023 4064
contact@adopt4vvc.org

Rheolwr penodedig y Gydweithredfa yw:

Elizabeth Dickinson
Cyfeiriad yr un fath â'r uchod

**NODAU AC AMCANION Y GWASANAETH**

**Nod Trosfwaol**
Nod cyffredinol y Gydweithredfa yw darparu gwasanaeth mabwysiadu cynhwysfawr, o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion plant sydd angen lleoliadau mabwysiadu, darpar fabwysiadwyr, teuluoedd mabwysiadol, oedolion mabwysiedig, rhieni geni a phobl eraill yr effeithir arnynt gan fabwysiadu. Trwy weithio mewn partneriaeth, cyfuno adnoddau a datblygu prosesau cyson, mae'r Gydweithredfa wedi ymrwymo i ddarparu canlyniadau gwell i bawb sydd angen gwasanaeth yn yr ardal ranbarthol.

**Amcanion**
- Cyflawni swyddogaethau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a darparu gwasanaeth mabwysiadu cynhwysfawr ar lefel ranbarthol
- Sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, rheoliadau, safonau gofynnol, gweithdrefnau lleol a'r Fframwaith Rheoli Perfformiad a osodwyd gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
- Sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn modd amserol ac effeithlon ac yn seiliedig ar anghenion asesedig y rhai hynny sydd angen gwasanaeth
- Sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu sy'n cefnogi anghenion diwylliannol, ieithyddol, crefyddol, ieithyddol a chyfathrebu unigolion
- Sicrhau bod y rheini sy'n ceisio cymeradwyaeth fel rhieni mabwysiadol yn cael eu croesawu heb ragfarn ac oedi a bod eu ceisiadau'n cael eu hystyried yn ôl eu teilyngdod unigol
- Datblygu ac adolygu strategaeth recriwtio sy'n sicrhau bod amrywiaeth o leoliadau mabwysiadu ar gael yn rhanbarthol neu drwy asiantaethau allanol i sicrhau lleoliadau amserol i bob plentyn lle mai'r cynllun lleoli yw mabwysiadu
- Darparu gwasanaeth lleoli sy'n canolbwyntio ar blant i sicrhau bod plant yn cael eu paru'n briodol â mabwysiadwyr sy'n gallu diwallu eu hanghenion trwy gydol eu plentyndod
- Rhoi cyngor ac arweiniad (y cyfeirir ato fel gwasanaeth cwnsela yn y rheoliadau) i rieni geni a theuluoedd yr effeithir arnynt gan fabwysiadu
- Darparu gwasanaeth cymorth cyn ac ar ôl mabwysiadu, yn unol â diwallu anghenion asesu plant a phobl ifanc

- Sefydlu cysylltiadau gweithio effeithiol â rhanddeiliaid allweddol a Chydweithredfeydd eraill
- Cynnal cysylltiadau gwaith effeithiol gydag Adrannau Gwasanaethau Plant awdurdodau lleol i sicrhau bod swyddogaethau'r asiantaethau o ran plant sydd angen lleoliadau mabwysiadol yn cael eu cynnal
- Defnyddio ac adeiladu ar enghreifftiau o arfer da yn y rhanbarth a hyrwyddo cysondeb, rhagoriaeth a gwelliant parhaus
- Cydymffurfio â gofynion archwilio ac arolygu allanol
- Sicrhau bod systemau ar waith i fonitro a gwerthuso ansawdd y gwasanaeth a bod barn defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei hystyried fel rhan o'r prosesau hyn

## GWASANAETHAU

### Cymhwysedd

Mae'r Gydweithredfa'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth i'r personau canlynol:

- Plant sy'n derbyn gofal yn y rhanbarth sydd angen lleoliad mabwysiadol
- Plant a phobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu a'u teuluoedd sydd angen asesiad o'u hanghenion cymorth ar ôl gwneud Gorchymyn Mabwysiadu
- Plant wedi'u mabwysiadu sydd wedi'u lleoli yn yr ardal ranbarthol gan awdurdod lleol allanol sydd angen asesiad o'u hanghenion cymorth mabwysiadu y tu hwnt i'r pwynt trosglwyddo tair blynedd
- Personau dros 21 oed sy'n ceisio cymeradwyaeth fel rhieni mabwysiadol
- Personau o fewn yr ardal ranbarthol sy'n ceisio mabwysiadu plentyn o dramor
- Personau sy'n ceisio mabwysiadu llysblentyn
- Personau sy'n ceisio mabwysiadu plentyn nad yw'n perthyn iddynt, sydd wedi darparu cartref i'r plentyn am dair blynedd cyn y cais neu am 12 mis os mai nhw yw'r gofalwr maeth ar gyfer y plentyn hwnnw
- Perthnasau biolegol plant wedi'u mabwysiadu drwy gyswllt ar ôl mabwysiadu
- Oedolion wedi'u mabwysiadu sy'n byw yn y rhanbarth neu, os cawsant eu mabwysiadu ar ôl mis Rhagfyr 2025, cawsant eu lleoli ar gyfer eu mabwysiadu gan un o'r asiantaethau partner
- Perthnasau a disgynyddion personau mabwysiedig sy'n gofyn am wybodaeth o gofnodion mabwysiadu a/neu wasanaeth cyfryngu

### Cyfrifoldebau FCCh

- Rhoi gwybodaeth ac ymateb cychwynnol amserol i bob ymholiad gan ddarpar fabwysiadwyr a chymryd camau dilynol
- Cwnsela, paratoi a rhoi hyfforddiant o flaen llaw i bawb sydd am gael eu cymeradwyo fel mabwysiadwyr a sicrhau bod asesiadau yn cael eu cyflawni'n brydlon

- Cynorthwyo teuluoedd sy’n mabwysiadu ar ôl cael eu cymeradwyo ac ar ôl i blant gael eu lleoli
- Asesu llys-rieni a mabwysiadwyr nad ydynt yn rhan o asiantaeth ar ran y Llys
- Asesu a chynorthwyo pobl sydd am fabwysiadu plentyn o wlad dramor
- Rhoi Cyngor Asiantaeth Mabwysiadu i Wneuthurwr Penderfyniadau’r Asiantaeth fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â'r cynllun mabwysiadu ar gyfer y plentyn
- Cynnig gwasanaeth dod o hyd i deuluoedd a dolennu i blant sy’n cael eu cyfeirio am leoliad mabwysiadu
- Darparu cyfleoedd cyswllt rhwng y plentyn a'r teulu biolegol ar ôl mabwysiadu trwy'r gwasanaeth cyswllt ôl-fabwysiadu
- Cynnig gwasanaeth cwnsela i rieni genedigol ar gyfer rhieni a pherthnasau i blant y bwriedir eu mabwysiadu
- Cynnig gwasanaeth i oedolion mabwysiedig sydd am weld eu gwybodaeth fabwysiadu, ac i’r rheiny sydd am gael eu haduno â’u teuluoedd biolegol
- Cynnig gwasanaeth mynediad at wybodaeth i berthnasau a disgynyddion unigolion mabwysiedig sy’n chwilio am wybodaeth a/neu sydd am gysylltu â’r unigolyn sydd wedi’i fabwysiadu
- Cynnal asesiadau o anghenion cymorth ôl-fabwysiadu plant a'u teuluoedd
- Cyflawni rôl a chyfrifoldebau'r Ymgynghorydd Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (YGCM)
- Sefydlu a chynnal Panel Mabwysiadu rhanbarthol yn unol â gofynion rheoliadol a rhoi Cyngor Asiantaeth i'r Panel
- Cynnal system gwybodaeth reoli i sicrhau y rhoddir adroddiadau perfformiad amserol a chyson i'r Bwrdd Rheoli rhanbarthol, y Cyd-bwyllgor a Chyfarwyddwr Gweithrediadau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
- Cynnal adolygiad o ansawdd y gwasanaeth bob chwe mis a darparu adroddiad blynyddol o'r gwasanaeth yn unol â'r Cytundeb Cydweithredu sy'n sail i’r ffordd y caiff y gwasanaeth ei gynnal

**Cyfrifoldebau asiantaethau partner**

Mae'r swyddogaethau canlynol yn cael eu cadw gan bob awdurdod lleol unigol:

- Asesu, cynllunio gofal ac adolygu plant mewn angen a'r rhai a atgyfeiriwyd ac a roddwyd i'w mabwysiadu
- Cynnal swyddogaethau'r Asiantaeth Penderfynu mewn perthynas â phlant sydd angen penderfyniad Dylid eu Rhoi i’w Mabwysiadu
- Asesu anghenion cymorth plant sydd angen eu mabwysiadu
- Cyfrifoldeb am ddewis lleoliad mabwysiadu a gweithio gyda'r tîm Canfod Teulu wrth baru'r plentyn â'r darpar fabwysiadwyr
- Gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chyllido lleoliadau mabwysiadu y tu allan i ardal y rhanbarth

- Gwneud penderfyniadau mewn perthynas â darparu Lwfansau Mabwysiadu a phecynnau cymorth i blant mabwysiedig yn seiliedig ar eu hanghenion asesedig.
- Cynnal cyfrifoldebau'r Gwneuthurwr Penderfyniadau Asiantaeth mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n ymwneud â gwrthod ceisiadau am fynediad at wybodaeth o gofnodion mabwysiadu

**DARPARU GWASANAETH**

Mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn cael ei ddarparu gan dri thîm swyddogaethol sy'n cwmpasu recriwtio ac asesu darpar fabwysiadwyr, dod o hyd i deuluoedd ar gyfer plant sydd angen eu mabwysiadu a darparu gwasanaethau cymorth ôl-fabwysiadu.

**Recriwtio ac asesu mabwysiadwyr**

**Cam ymholi**

Mae'r Gydweithredfa'n croesawu ac yn annog ymholiadau gan unigolion a theuluoedd sydd â diddordeb mewn mabwysiadu sy'n byw yn yr ardal ranbarthol ac o wahanol gefndiroedd diwylliannol, crefyddol ac ethnig, waeth beth fo'u statws priodasol, cyflogaeth, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu anabledd. Gellir gwneud ymholiadau drwy e-bostio FCCh (contact@adopt4vvc.org), dros y ffôn (0800 023 4064) neu ar wefan FCCh (adopt4vvc.org). Gellir ystyried ymgeiswyr mabwysiadu posibl sy'n byw y tu allan i'r rhanbarth hefyd.

Mae deunyddiau marchnata sydd ar gael ar ein gwefan, ar ein cyfryngau cymdeithasol ac yn gyhoeddus ar gael yn ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg. Darperir pecyn gwybodaeth i ymholwyr a cheir cyswllt dilynol gan y Swyddog Marchnata. Mae'r iaith a ffefrir ac unrhyw anghenion cyfathrebu'r ymholwr yn cael eu canfod o'r cychwyn cyntaf i sicrhau bod gwybodaeth, gohebiaeth a chyfathrebu yn cael eu darparu yn yr iaith o'i ddewis ac yn cael eu cofnodi ar y system i adlewyrchu hyn. Cynigir ymholwyr yn weithredol a hoffent dderbyn gohebiaeth a chyfathrebu yn Gymraeg. Ni fydd gohebiaeth na cheisiadau a wneir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a wneir yn Saesneg, ac ni fydd oedi wrth ymateb i unrhyw ohebiaeth neu geisiadau a dderbynnir yn Gymraeg.

Cynigir cyfle i ymholwyr sy'n dymuno bwrw ymlaen fynd i Sesiwn Wybodaeth a hwylusir ar y cyd gan y Rheolwr Tîm a'r Swyddog Marchnata. Darperir y sesiynau hyn bob deufis neu'n amlach yn ôl yr angen. Mae ymweliadau cartref cychwynnol yn cael eu cynnal yn bennaf gan ein Swyddog Marchnata profiadol, neu gan aelodau o'r tîm Recriwtio ac Asesu. Mae'r ymweliadau cartref ar gyfer yr unigolion hynny sydd â diddordeb mewn mynd â'u hymholiad ymhellach. Lle nad oes ymarferwyr Cymraeg ar gael, gellir cynnig gwasanaethau cyfieithu Cymraeg ar gyfer digwyddiadau gwybodaeth, ymweliadau ac asesiadau i'r rhai sy'n dewis gweithredu'n Gymraeg.

Pwrpas y cam recriwtio cychwynnol yw darparu gwybodaeth am fabwysiadu, y cymwyseddau sydd eu hangen i ddod yn fabwysiadwr a'r ystod o blant sydd angen

lleoliadau mabwysiadu er mwyn galluogi darpar ymgeiswyr i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch a ydynt yn dymuno Cofrestru eu Diddordeb.

**Asesu**
Cynhelir y broses asesu a chymeradwyo yn unol â Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2019. Mae dau gam i'r broses.

Mae Cam 1 yn dechrau gydag ymgeiswyr yn Cofrestru eu Diddordeb yn ffurfiol. Mae Cam 1 yn ymwneud yn bennaf â darparu gwybodaeth bellach a hyfforddiant perthnasol mewn perthynas â mabwysiadu a chynnal gwiriadau a chasglu geirdaon angenrheidiol. Darperir cwrs hyfforddi tri diwrnod i ddarpar fabwysiadwyr ar y cyd â chydweithredfa gyfagos, Bae'r Gorllewin. Mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei hwyluso ar y cyd gan Therapydd Cymorth Mabwysiadu a Gweithiwr Cymdeithasol Recriwtio ac Asesu sy'n brofiadol ac yn wybodus mewn mabwysiadu.

Rhaid i ddarpar fabwysiadwyr gydsynio i gyfres o wiriadau gael eu cynnal yn ystod Cam 1.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwirio eu hunaniaeth a'u dogfennaeth i gefnogi unrhyw newidiadau enw, gan gynnwys priodasau, partneriaethau sifil a thystysgrifau ysgariad lle bo hynny'n berthnasol
- Datgeliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) ar bob ymgeisydd a phob aelod o'r aelwyd dros 18 oed
- Geirdaon gan 3 chanolwr personol sydd wedi adnabod yr ymgeisydd/ymgeiswyr ers o leiaf dair blynedd a hefyd gwiriadau o bartneriaid blaenorol perthnasol
- Gwiriadau awdurdodau lleol o'r ardal lle mae'r ymgeisydd wedi byw ers yn 18 oed
- Geirda gan y cyflogwr presennol neu'r cyflogwr mwyaf diweddar ac ystyried geirdaon gan gyflogwyr blaenorol lle mae'r ymgeisydd wedi gweithio gyda phlant.
- Archwiliad meddygol gan feddyg teulu yr ymgeisydd sy'n cael ei sgrinio a'i grynhoi gan Ymgynghorydd Meddygol yr asiantaeth
- Unrhyw ffynhonnell arall y mae'r Gweithiwr Cymdeithasol yn teimlo ei bod yn angenrheidiol i gefnogi neu wirio'r wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer ei adroddiad.

Mae materion sy'n codi o'r gwiriadau yn cael eu trafod gyda'r ymgeisydd unigol, er bod geirdaon yn cael eu trin yn gyfrinachol oni bai bod caniatâd i'w rhannu wedi'i roi. Gallai'r gwiriad GDG ganfod troseddau a allai atal mynd ymhellach gyda'r Cofrestriad o Ddiddordeb, er y gellir trafod troseddau llai difrifol a'u cydbwyso yn erbyn y sgiliau a'r rhinweddau sy'n cael eu cynnig gan yr ymgeisydd. Bydd canlyniad gwiriadau cam 1 yn penderfynu a yw darpar fabwysiadwyr yn symud i Gam 2, sef y cam asesu.

Mae ymgeiswyr yn cael eu cefnogi i wneud eu cyfraniadau ysgrifenedig eu hunain i Adroddiad y Darpar Fabwysiadwr (ADF). Pan fo ymgeiswyr wedi nodi'r Gymraeg fel eu

dewis iaith, gallant wneud eu sylwadau ysgrifenedig yn y Gymraeg a bydd yr aseswr yn trefnu cyfieithu'r testun. Mae Gweithiwr Cymdeithasol cymwysedig yn cynnal asesiadau o'r holl ddarpar fabwysiadwyr gan ddefnyddio Adroddiad Darpar Fabwysiadwr (ADF) CoramBAAF. Mae manylion yr hyn sydd ei angen ac sy'n cael ei archwilio yn yr asesiad yn cael eu cynnwys yn yr hyfforddiant a ddarperir.

Yn ystod yr asesiad cyfwelir â holl aelodau'r aelwyd, gan gynnwys plant presennol, a cheisir eu barn. Mae plant sy'n oedolion nad ydynt bellach yn byw yn y cartref yn cael eu cyfweld lle bo'n ymarferol a cheisir adborth am eu profiadau o gael eu rhianta gan yr ymgeisydd/ymgeiswyr.

Lle bo angen, bydd y Gweithiwr Cymdeithasol yn gofyn am wybodaeth ychwanegol gan ysgolion, gweithwyr proffesiynol eraill, cyn-gyflogwyr neu aelodau o'r teulu estynedig sydd â gwybodaeth am yr ymgeisydd/ymgeiswyr a/neu eu galluoedd rhianta.

Mae rhestr wirio Iechyd a Diogelwch CoramBAAF yn cael ei chwblhau sy'n cwmpasu pob agwedd ar iechyd a diogelwch yn y cartref gan gynnwys y risgiau sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid anwes.

Yn amodol ar ofynion deddfwriaeth a chanllawiau ar ddatgelu cofnodion, mae'r adroddiad asesu ADF yn cael ei rannu gyda'r ymgeisydd/ymgeiswyr sydd â hyd at 10 diwrnod i wneud sylwadau mewn perthynas â'r adroddiad. Bydd yr adroddiad yn cael ei ddarparu i'r ymgeisydd/ymgeiswyr yn yr iaith o'u dewis. Nid yw'r wybodaeth a roddir yn gyfrinachol gan ganolwyr yn cael ei datgelu, er bod canolwyr yn cael eu hannog i rannu hyn gydag ymgeiswyr lle bydd yn cynorthwyo'r broses asesu a gwneud penderfyniadau.

**Cymeradwyaeth**

Cyflwynir yr holl asesiadau wedi'u cwblhau i Banel Mabwysiadu y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd. Mae'r Panel yn cynnwys pobl sydd naill ai â gwybodaeth bersonol am fabwysiadu neu sydd ag arbenigedd proffesiynol yn y maes hwn. Mae'r Panel Mabwysiadu yn cael ei gadeirio gan berson sy'n annibynnol ar FCCh ac mae'n ofynnol i lawer o aelodau'r Panel hefyd fod yn annibynnol ar y gwasanaeth. Darperir y rôl Ymgynghorydd Asiantaeth i'r Panel Mabwysiadu gan un o'r rheolwyr o fewn y gwasanaeth.

Rôl y Panel Mabwysiadu yw ystyried pob cais a gwneud argymhelliad ynghylch addasrwydd yr ymgeisydd/ymgeiswyr mewn perthynas â mabwysiadu. Gall y Panel hefyd roi cyngor ar nifer ac oedran y plant a fyddai'n cyd-fynd orau â'u galluoedd/dewisiadau. Mae'r Panel hefyd yn gwneud argymhellion mewn perthynas â pharu plant â darpar fabwysiadwyr fel y manylir yn nes ymlaen.

Cynhelir pob Panel yn rhithwir a gwahoddir ymgeiswyr i fynychu'r Panel pan fydd eu cais yn cael ei gyflwyno a gwneud eu sylwadau eu hunain mewn perthynas â'r argymhelliad. Lle

mai iaith ddewisol yr ymgeiswyr yw'r Gymraeg, gellir cynnig gwasanaethau cyfieithu o’r Gymraeg yn ystod y panel. Mae'r ymgeisydd/ymgeiswyr yn cael eu hysbysu ar lafar am argymhelliad y Panel Mabwysiadu ar y diwrnod. Mae'r penderfyniad ynghylch cymeradwyo yn cael ei wneud gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant (Gwneuthurwr Penderfyniadau’r Asiantaeth) yn yr awdurdod lleol y mae'r ymgeiswyr yn byw ynddo ar ôl ystyried yr asesiad ac argymhelliad y Panel.

Bydd ymgeiswyr nad ydynt yn cael eu hystyried yn addas i fabwysiadu yn cael gwybod am y rhesymau dros eu gwrthod yn ysgrifenedig, ac mae ganddynt hawl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r asiantaeth er mwyn i'r penderfyniad gael ei ailystyried o fewn 28 diwrnod i'r penderfyniad. Gallant hefyd ofyn i'w hachos gael ei ystyried gan y Mecanwaith Adolygu Annibynnol (IRM).

Mae'r Mecanwaith Adolygu Annibynnol yn cael ei weithredu gan Lywodraeth Cymru ac mae'n caniatáu mynediad i Banel annibynnol, a fydd yn gwneud argymhelliad i'r asiantaeth i'w ystyried. Nid proses apelio yw hon a gall yr asiantaeth benderfynu peidio â chynnal argymhelliad y Panel IRM.

**Ar ôl cymeradwyo**

Bydd y Gweithiwr Cymdeithasol asesu yn parhau i gefnogi'r ymgeiswyr ar ôl cymeradwyo.

Bydd cymeradwyaeth y mabwysiadwyr yn destun adolygiad ar ôl 1 flwyddyn os nad yw plentyn yn cael ei leoli. Gall hyn gynnwys diweddaru gwiriadau a'u cyflwyno i'r Panel mewn achosion lle argymhellir peidio â pharhau â chymeradwyaeth fel mabwysiadwyr.

Mae pob mabwysiadwr cymeradwy yn cofrestru gyda Chofrestr Fabwysiadu Cymru (CFC), y dylid ei wneud o fewn mis ar ôl cael cymeradwyaeth.

**Mabwysiadu trawswladol**

Mae unigolion sy'n ceisio mabwysiadu o dramor yn destun yr un broses asesu a chymeradwyo â mabwysiadwyr domestig ac yn cael eu hasesu i'r un safonau. Bydd ffi yn cael ei chodi am y gwasanaeth a gellir darparu copi o'r polisi ffioedd mabwysiadu trawswladol ar gais.

Mae yna hefyd nifer o ofynion ychwanegol mewn perthynas ag asesu mabwysiadwyr trawswladol. Bydd yr asesiad yn cwmpasu addasrwydd yr ymgeisydd i fabwysiadu plentyn o dramor a'i allu i fodloni gofynion y wlad benodol o ran oedran, iechyd a statws ariannol. Cyn gwneud cais am gael eu hasesu fel darpar fabwysiadwyr, cynghorir ymgeiswyr i wirio eu bod yn gallu bodloni meini prawf cymhwysedd y wlad dan sylw yn ogystal â'r gofynion cymhwysedd yn y DU.

Ar ôl eu cymeradwyo, mae'r asesiad, y gwiriadau, yr adroddiadau meddygol a'r geirdaon, ynghyd â chofnodion y Panel Mabwysiadu a phenderfyniad Penderfynwyr yr Asiantaeth, yn

cael eu rhoi i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r cais ac yn cysylltu ag Adran Addysg San Steffan i ofyn iddynt gyhoeddi Tystysgrif Cymhwysedd ar gyfer achosion a gwmpesir gan Gonfensiwn yr Hâg. Bydd ffi ychwanegol ar wahân yn cael ei chodi gan yr Adran Addysg am y dystysgrif hon.

Bydd yr awdurdodau yn y wlad dan sylw yn ystyried y cais ac os caiff ei gymeradwyo, bydd yr ymgeiswyr yn cael eu hychwanegu at y rhestr aros o fabwysiadwyr tramor cymeradwy nes eu bod yn cael eu paru.

Pan fydd y teulu wedi'i baru ac ar ôl iddynt gyflwyno eu hunain, bydd y teulu yn dychwelyd gyda'r plentyn i'r DU a bydd yn rhaid iddo gydymffurfio â threfniadau mewnfudo a chlirio mynediad. Yn dibynnu ar wlad tarddiad y plentyn, efallai y bydd angen i'r darpar fabwysiadwyr hysbysu'r awdurdod lleol a gwneud cais i'r llys am Orchymyn Mabwysiadu.

Gall teuluoedd sydd wedi mabwysiadu plant o dramor ofyn am gyngor a chymorth ac mae ganddynt hawl i asesiad o'u hanghenion cymorth os bydd ei angen arnynt.

**Mabwysiadu heb fod drwy asiantaeth (y cyfeirir ato’n gyffredin fel mabwysiadu gan lys-riant)**

Mae'n ofynnol i unigolion sy'n ceisio mabwysiadu llysblentyn neu blentyn nad yw'n perthyn iddynt roi gwybod i'r gwasanaeth am eu bwriad i fabwysiadu yn ysgrifenedig. Yn achos cais gan lys-riant, dylai'r hysbysiad hwn gael ei lofnodi gan y llys-riant a'r rhiant biolegol. Os yw'r cais yn ymwneud â phlentyn nad yw'n perthyn, yna dylai'r hysbysiad gael ei lofnodi gan yr ymgeisydd/ymgeiswyr.

Mae'r Gydweithredfa’n gweithredu rhestr aros mewn perthynas â mabwysiadu heb fod drwy asiantaeth, sy'n destun adolygiad rheolaidd. Bydd Gweithiwr Cymdeithasol yn cael ei benodi i gynnal yr asesiad ar ran y llys a darparu adroddiad Addasrwydd Atodlen A wedi'i gwblhau. Mae'r adroddiad yn fanwl ac yn cynnwys gwybodaeth am y plentyn, aelodau'r teulu a'r rhieni geni. Bydd y Gweithiwr Cymdeithasol yn cysylltu â'r rhieni geni i ganfod eu barn ar y mabwysiadu arfaethedig. Bydd angen i'r Gweithiwr Cymdeithasol hefyd gadarnhau dealltwriaeth y plentyn o fabwysiadu ac er bod hyn yn dibynnu ar oedran, mae disgwyl bod darpar fabwysiadwyr yn annog agwedd agored gyda'r plentyn a’i helpu i ddeall ei statws.

Mae ymgeiswyr yn cydsynio i wiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) mewn perthynas ag unrhyw un dros 18 oed sy'n byw yn eu cartref. Mewn achosion lle nad yw plant yn perthyn i'r ymgeisydd/ymgeiswyr, mae angen archwiliad meddygol llawn ar y plentyn a’r ymgeiswyr ochr yn ochr â gwiriadau canolwyr. Mae ymgeiswyr yn gyfrifol am dalu unrhyw ffioedd a godir o ganlyniad i'r gwiriadau hyn.

Pan fydd y Gweithiwr Cymdeithasol wedi cwblhau'r adroddiad, rhaid i'r ymgeisydd wneud cais i'r llys gyda'r ffi ragnodedig.

Yn dilyn y cais, bydd y Llys yn trefnu Gwrandawiad Cyfarwyddo ac yn pennu amserlen ar gyfer cwblhau'r adroddiad a'r ymholiadau sydd i'w gwneud mewn perthynas â'r cais. Bydd swyddog CAFCASS yn cael ei benodi i gael caniatâd y rhiant biolegol i'r mabwysiadu. Os bydd caniatâd yn cael ei wrthod, efallai y bydd angen i ymgeiswyr gyfarwyddo cyfreithiwr i'w cynrychioli yn ystod yr achos llys.

Rôl y Gweithiwr Cymdeithasol yw asesu a yw mabwysiadu er budd gorau'r plentyn a chynnig cymorth a chadw mewn cysylltiad â'r teulu hyd nes y bydd y broses llys yn dod i ben. Mae gwybodaeth fanwl am fabwysiadu heb fod drwy asiantaeth a gan lys-riant ar wefan y Gydweithredfa a chynghorir unrhyw un sy'n archwilio'r opsiwn hwn i ystyried y wybodaeth hon yn llawn (Mabwysiadu heb fod drwy asiantaeth / gan lysrieni) cyn cyflwyno ei hysbysiad ysgrifenedig.

**Canfod Teulu**

Mae pob plentyn a allai fod angen cynllun ar gyfer mabwysiadu yn cael ei gyfeirio at FCCh gan yr awdurdodau partner yn dilyn proses asesu a chynllunio o fewn yr awdurdod lleol perthnasol a llunio cynllun tracio deuol arfaethedig ar gyfer mabwysiadu neu gynllun gofal amgen. Mae plant o rieni sy'n ystyried mabwysiadu ar gyfer eu plant ar sail wirfoddol (a elwir yn blant sy'n cael eu hildio) hefyd yn cael eu hatgyfeirio. Bydd yr iaith ddewisol ar gyfer plant, eu rhieni geni a'u gofalwyr maeth yn cael ei chanfod ar adeg yr atgyfeiriad cychwynnol er mwyn sicrhau bod gwybodaeth, gohebiaeth a chyfathrebu yn cael eu darparu yn yr iaith o'u dewis ac mae hyn yn cael ei gofnodi ar y system i adlewyrchu hyn. Cynigir ymholwyr yn weithredol a hoffent dderbyn gohebiaeth a chyfathrebu yn Gymraeg. Ni fydd gohebiaeth a wneir yn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r rhai a wneir yn Saesneg, ac ni fydd oedi wrth ymateb i unrhyw ohebiaeth neu geisiadau a dderbynnir yn Gymraeg.

Mae atgyfeiriadau yn cael eu dyrannu i Weithiwr Cymdeithasol o'r Tîm Canfod Teulu sy'n rhoi gwybodaeth ac arweiniad (y cyfeirir atynt fel 'cwnsela' yn y rheoliadau) i'r rhieni geni mewn perthynas â'r cynllun mabwysiadu, yn ceisio barn y rhieni geni ar y cynllun mabwysiadu ac yn cysylltu â'r Gweithiwr Cymdeithasol sy'n gyfrifol am y plentyn ynghylch cynnydd y cynllun. Bydd y plant hynny y mae'r awdurdod lleol perthnasol yn nodi cynllun sefydlogrwydd amgen iddynt yn cael eu tynnu'n ôl o'r atgyfeiriad tracio deuol i'w mabwysiadu.

Mae gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag a ddylid rhoi plentyn i'w fabwysiadu yn cael ei wneud gan y Pennaeth Gwasanaeth neu gan berson dirprwyedig yn yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn hwnnw. Yr unigolyn hwn fydd Penderfynwr yr Asiantaeth. Mae plant sy'n cael eu hildio yn cael eu cyfeirio at y Panel Mabwysiadu am argymhelliad ynghylch a yw mabwysiadu er budd gorau'r plentyn cyn cael eu hystyried gan Benderfynwr yr Asiantaeth.

Fel rhan o'i swyddogaethau dirprwyedig, mae FCCh yn cydlynu'r broses gwneud penderfyniadau ynghylch mabwysiadu ar gyfer pob awdurdod lleol. Mae'r wybodaeth atgyfeirio yn cael ei hanfon at yr Ymgynghorydd Meddygol perthnasol er mwyn cynnal archwiliadau meddygol ar y plentyn a darperir pecyn o wybodaeth angenrheidiol i Benderfynwr yr Asiantaeth er mwyn gwneud y penderfyniad ynghylch a ddylid gosod y plentyn i'w fabwysiadu. Darperir y rôl Ymgynghorydd Asiantaeth i Benderfynwr yr Asiantaeth gan un o'r rheolwyr o fewn y gwasanaeth.

Ar ôl gwneud Gorchymyn Lleoliad, mae'r Gweithiwr Cymdeithasol Canfod Teulu yn gweithio'n agos gyda Gweithiwr Cymdeithasol y plentyn i sicrhau teulu mabwysiadol addas fydd yn diwallu anghenion y plentyn. Mae cefndir diwylliannol a chrefyddol, ethnigrwydd ac unrhyw anghenion ieithyddol y plentyn yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses hon.

Mae'r broses o sicrhau'r cyfatebolrwydd cywir i'r plentyn yn cynnwys cael proffil llawn o gefndir y plentyn, anghenion penodol, materion iechyd, ei ymlyniad, anghenion cymorth a'r cynllun cyswllt arfaethedig ar gyfer y plentyn ar ôl ei fabwysiadu. Mae ystyriaethau eraill wrth baru yn cynnwys lleoliad daearyddol y lleoliad arfaethedig, dymuniadau a theimladau'r rhieni geni a'r plentyn os yw'n ddigon hen i fynegi barn.

Bydd y Gweithiwr Cymdeithasol Canfod Teulu yn sefydlu i ddechrau a ellir nodi pâr posibl ymhlith mabwysiadwyr sydd wedi'u cymeradwyo gan FCCh. Rhaid i bob plentyn fod wedi'i gofrestru gyda Chofrestr Fabwysiadu Cymru (CFC) o fewn mis i'w Orchymyn Lleoli (neu benderfyniad ildio), ond os nad oes pâr addas ar gael yn y rhanbarth, bydd y Gweithiwr Cymdeithasol Canfod Teulu yn ceisio cymeradwyaeth yr awdurdod lleol i atgyfeirio'r plentyn am ddolen allanol drwy Gofrestr Fabwysiadu Cymru a Linkmaker, sef cronfa ddata genedlaethol sy'n canfod a chysylltu teuluoedd. Gall hyn olygu bod y plentyn yn cael ei leoli i'w fabwysiadu y tu allan i'r rhanbarth a bydd rhaid i'r awdurdod lleol perthnasol gytuno ar y ffi rhyngasiantaethol berthnasol.

Bydd y Gweithiwr Cymdeithasol Canfod Teulu, Gweithiwr Cymdeithasol y Plentyn a'r Gweithiwr Cymdeithasol sy'n cefnogi'r teulu mabwysiadol yn mynd ar drywydd cyfatebiadau posibl ar gyfer y plentyn drwy gynnal ymweliadau cartref. Pwrpas yr ymweliadau hyn yw rhannu gwybodaeth berthnasol am y plentyn a'i gefndir, i asesu a allai'r darpar fabwysiadwyr ddiwallu anghenion asesedig y plentyn ac i ganfod barn y darpar fabwysiadwyr ar y pâr a gynigir.

Ar ôl eu paru, cynhelir cyfarfod paru mewnol sy'n cael ei gadeirio gan Reolwr Tîm Canfod Teulu FCCh i gadarnhau cefnogaeth i'r paru arfaethedig ac i lunio'r cynllun paru ar gyfer y plentyn. Mae'r cynllun paru yn cael ei ystyried gan y Panel Mabwysiadu er mwyn argymell a all y paru arfaethedig ddiwallu anghenion y plentyn cyn penderfyniad gan Benderfynwr yr Asiantaeth. Gall darpar fabwysiadwyr gwrdd ag Ymgynghorydd Meddygol y plentyn, ei ofalwr maeth neu unrhyw berson sy'n berthnasol i'w ofal cyn mynychu'r Panel Mabwysiadu.

Gellir rhoi cyfleoedd pellach i gwrdd â phobl berthnasol sydd wedi adnabod y plentyn drwy ddarparu 'Diwrnod Deall y Plentyn' lle bo'n bosibl a blaenoriaethu plant 3 oed neu hŷn neu o fewn grŵp brodyr a chwiorydd lle mae un plentyn yn 3 oed neu hŷn.

Lle bynnag y bo modd, bydd y Gweithiwr Cymdeithasol Canfod Teulu yn ceisio trefnu cyfarfod untro rhwng y darpar fabwysiadwyr a'r rhieni geni. Mae'r penderfyniad i gynnig hyn yn seiliedig ar asesiad risg a gwblhawyd gan y Gweithiwr Cymdeithasol sydd â chyfrifoldeb achos am y plentyn a pharodrwydd y darpar fabwysiadwyr a'r rhieni geni (neu berthnasau eraill lle bo hynny'n briodol) i gymryd rhan.

Bydd cyfres o gyfarfodydd rhwng y plentyn a'r mabwysiadwyr yn cael eu trefnu cyn cyfnod cyflwyno ffurfiol er mwyn helpu i feithrin cysylltiad. Bydd y cyfarfodydd hyn yn cael eu cefnogi gan y gofalwr maeth a'r Gweithwyr Cymdeithasol lle bo angen. Gelwir y cyfarfodydd hyn yn 'gyn gyfarfodydd' neu'n gyfarfodydd 'dod ar draws'. Ar ôl i Benderfynwr yr Asiantaeth wneud y penderfyniad, mae cyfnod o gyflwyniadau wedi'u cynllunio yn cael ei roi ar waith ar gyfer y plentyn a'r darpar fabwysiadwyr er mwyn trosglwyddo'r plentyn hwnnw yn llwyddiannus i'w deulu newydd. Mae darpar fabwysiadwyr yn cael eu talu am gostau teithio i'r ymweliadau hyn a threfnir llety iddynt yn lleol os ydynt yn byw y tu allan i'r rhanbarth.

Mae'r lleoliad yn cael ei gefnogi gan y Gweithiwr Cymdeithasol sy'n asesu'r teulu mabwysiadol a Gweithiwr Cymdeithasol y Plentyn hyd nes y bydd y Gorchymyn Mabwysiadu yn cael ei wneud. Mae'r awdurdod lleoli yn cynnal ymweliadau statudol ac adolygiadau o leoliad y plentyn.

Mae'r rhan hon o'r gwasanaeth yn cael ei chefnogi gan ddwy swydd Gweithiwr Cymdeithasol a ariennir gan grant i gynorthwyo gyda pharatoi plant ar gyfer lleoliad i'w mabwysiadu ac un swydd sy'n cydlynu'r ddarpariaeth o waith Taith Bywyd ar y cyd ag asiantaethau partner. Mae ymarferwyr Taith Bywyd wedi'u lleoli ym mhob un o'r awdurdodau lleol, ac maent yn darparu llyfr(au) taith bywyd i'r plentyn. Mae Gweithiwr Cymdeithasol y plentyn yn parhau i fod yn gyfrifol am ddarparu Llythyr Hwyrach mewn Bywyd i blant. Bydd yr holl ddeunyddiau taith bywyd yn cael eu darparu yn iaith ddewisol y plentyn.

**Cymorth Mabwysiadu**

Mae gan y Gydweithredfa gyfrifoldeb am asesu anghenion cymorth mabwysiadu o dan Reoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005. Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol penodi Ymgynghorydd Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (YGCM). Yr YGCM ar gyfer FCCh yw'r Rheolwr Cymorth Mabwysiadu.

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Cymru) 2019 yn rhagnodi'r categorïau o bersonau a'r math o gymorth ac amgylchiadau y gellir darparu cymorth ar eu cyfer.

Rhagnodir gwasanaethau cymorth mabwysiadu fel:

- Cymorth i rieni mabwysiadol, plant a phobl gysylltiedig mewn perthynas â threfniadau cyswllt ar ôl mabwysiadu
- Gwasanaethau y gellir eu darparu mewn perthynas ag anghenion therapiwtig plentyn sy’n gysylltiedig â’i fabwysiadu
- Cymorth ôl-fabwysiadu i gefnogi perthynas plentyn â'i rieni mabwysiadol a all gynnwys hyfforddiant i'r rhiant mabwysiadol er mwyn cefnogi anghenion y plentyn a gofal seibiant
- Cymorth lle mae lleoliad mabwysiadu neu aflonyddwch wedi digwydd neu'n debygol o ddigwydd
- Cymorth i bersonau mabwysiedig a pherthnasau personau mabwysiedig dros 18 oed i gael gwybodaeth mewn perthynas â mabwysiadu'r person a hwyluso cyswllt lle bo angen
- Darparu gwasanaethau i alluogi grwpiau o blant mabwysiedig, rhieni mabwysiadol a rhieni geni i drafod materion sy'n ymwneud â mabwysiadu

Mae asesiad o anghenion cymorth mabwysiadu yn rhan o gynllun pob plentyn sy'n cael ei roi i'w fabwysiadu. Mae'r Cynllun Cymorth Mabwysiadu yn cael ei ystyried:

- Yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid rhoi plentyn i'w fabwysiadu
- Wrth ystyried pâr ar gyfer plentyn a phryd mae'r plentyn yn cael ei leoli
- Yn rhan o'r system adolygu statudol ar gyfer plant sy’n cael eu rhoi i'w mabwysiadu
- Pan wneir Gorchymyn Mabwysiadu
- Fel rhan o asesiad o anghenion cymorth ar ôl mabwysiadu

Cyn gwneud y Gorchymyn Mabwysiadu, bydd Gweithiwr Cymdeithasol y plentyn yn gyfrifol am gynnal yr asesiad a pharatoi, gweithredu ac adolygu'r Cynllun Cymorth Mabwysiadu. Mae adolygu'r cynllun yn rhan o'r broses adolygu statudol yr awdurdod lleoli ar ôl lleoli'r plentyn.

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleoli gysylltu â'r awdurdod lle gellir gosod plentyn cyn i'r penderfyniad i leoli gael ei wneud i ganfod a yw'r gwasanaethau cymorth gofynnol ar gael yn yr ardal. Cyfrifoldeb yr YGCM yw hwn. Bydd yr awdurdod lleoli yn parhau i fod yn gyfrifol am asesu anghenion cymorth y plentyn am dair blynedd ar ôl dyddiad y Gorchymyn Mabwysiadu. Wedi tair blynedd, mae'r cyfrifoldeb am asesu'r anghenion cymorth, pe bai angen, yn cael ei drosglwyddo i'r awdurdod preswyl.

Gall ceisiadau am asesiad o anghenion cymorth ôl-fabwysiadu gael eu gwneud yn uniongyrchol gan deuluoedd mabwysiadol i FCCh neu gellir eu cyfeirio trwy wasanaethau eraill. Mae'r iaith a ffefrir ac unrhyw anghenion cyfathrebu'r teulu mabwysiadol yn cael eu canfod o’r cychwyn cyntaf i sicrhau bod gwybodaeth, gohebiaeth a chyfathrebu yn cael eu darparu yn yr iaith o’i ddewis ac yn cael eu cofnodi ar y system i adlewyrchu hyn. Gofynnir i

deuluoedd mabwysiadol yn weithredol a hoffent dderbyn gohebiaeth a chyfathrebu yn Gymraeg. Lle nad oes ymarferwyr Cymraeg ar gael, gellir cynnig gwasanaethau cyfieithu Cymraeg ar gyfer gwasanaethau cymorth, ymweliadau ac asesiadau i'r rhai sy'n dewis gweithredu'n Gymraeg. Ni fydd gohebiaeth a wneir yn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r rhai a wneir yn Saesneg, ac ni fydd oedi wrth ymateb i unrhyw ohebiaeth neu geisiadau a dderbynnir yn Gymraeg.

Mae asesiadau o gymorth ôl-fabwysiadu yn cael eu cwblhau gan Weithiwr Cymdeithasol Cymorth Mabwysiadu. Mae asesiadau a gynhelir gan Swyddogion Gofal Cymdeithasol o fewn y tîm yn cael eu cynnal dan oruchwyliaeth Rheolwr y Tîm. Bydd yr asesiad yn gwneud argymhelliad ynghylch y gwasanaeth gorau i ddiwallu anghenion asesedig y plentyn a'i deulu mabwysiadol. Gall hyn gynnwys cyfeirio at wasanaethau cyffredinol neu arbenigwyr eraill yn yr awdurdod lleol, cael cymorth yn uniongyrchol gan y Tîm Mabwysiadu neu geisio cyllid gan yr awdurdod y mae'r teulu'n byw ynddo ar gyfer gwasanaeth a gomisiynir yn allanol. Bydd Cynllun Cymorth Mabwysiadu diwygiedig yn cael ei gwblhau a bydd y cynllun hwn yn cael ei ddiweddaru yn ôl yr angen.

Mae'r Tîm Cymorth Mabwysiadu yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Cymorth Plant sy'n Derbyn Gofal (GCPDG) sy'n cwmpasu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful a'r gwasanaeth Enfys sy'n cwmpasu Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae atgyfeiriadau mewn perthynas â chymorth ôl-fabwysiadu yn cael eu sgrinio gan y ddau wasanaeth gyda'r bwriad o ddarparu ymyriadau ymddygiadol neu therapiwtig yn uniongyrchol neu argymell darpariaeth amgen i'r awdurdod lleol cyfrifol. Yr awdurdod lleol perthnasol sydd â'r cyfrifoldeb a'r grym i wneud penderfyniadau am gyllid gwasanaethau cymorth ôl-fabwysiadu o hyd wedi'i lywio gan asesiad o anghenion cymorth ac ystyriaeth naill ai gan GCPDG neu Enfys.

Mae FCCh yn darparu gweithgareddau cymorth cyffredinol i deuluoedd mabwysiadol drwy ddiwrnodau hwyl i'r teulu ddwywaith y flwyddyn, Hyb teuluol wythnosol a Grŵp Gweithgareddau Chwaraeon i blant a phobl ifanc yn ystod y tymor.

Mae gan y Tîm Cymorth Mabwysiadu dair swydd a ariennir gan grant sy'n arbenigo mewn meysydd penodol o ddarparu gwasanaethau:

Mae Cydlynydd PATHways yn gyfrifol am asesu ac atgyfeirio teuluoedd sydd angen cymorth yn unol â'r gwasanaethau a ddarperir gan wasanaeth PATH cenedlaethol Adoption UK.

Mae'r Cydlynydd Plant a Phobl Ifanc yn gyfrifol am atgyfeirio a chefnogi plant a phobl ifanc at y Gwasanaeth Cysylltu a ddarperir hefyd gan Adoption UK. Mae'r rôl hon yn cefnogi'n uniongyrchol y grwpiau Cysylltu sy'n cael eu cynnal ar benwythnos bob mis.

Y swydd arall a ariennir gan y grant yw'r Ymgynghorydd Rhieni Geni rhan amser sy'n rhoi cymorth i rieni geni a theuluoedd plant a phobl ifanc mabwysiedig. Mae Grŵp Cymorth Rhieni Geni chwarterol wedi'i sefydlu.

Mae gan y Tîm Cymorth Mabwysiadu hefyd 2.5 swydd Swyddog Gofal Cymdeithasol sy'n rhoi cymorth unigol ac ar sail grŵp i blant a phobl ifanc ac yn eu helpu i gysylltu ar ôl mabwysiadu.

Mae FCCh yn cynnal gwasanaeth cyswllt ôl-fabwysiadu ar gyfer plant mabwysiedig a'u perthnasau biolegol. Mae cyfnewid cyswllt anuniongyrchol trwy wasanaeth Blwch Llythyrau FCCh yn cael ei hwyluso gan y Gweithiwr Cymdeithasol Cyswllt Ôl-fabwysiadu a'r Swyddog Gofal Cymdeithasol Cyswllt Ôl-fabwysiadu. Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor a chefnogaeth i'r ddau barti ar baratoi gohebiaeth a chyswllt ynghylch yr amserlennu a'r trefniadau ar gyfer cyswllt. Mae'r iaith a ffefrir ac unrhyw anghenion cyfathrebu'r rheiny sy'n cymryd rhan o gytundeb blwch llythyrau yn cael eu canfod o'r atgyfeiriad cychwynnol i sicrhau bod gwybodaeth, gohebiaeth a chyfathrebu yn cael eu darparu yn yr iaith o'u dewis ac yn cael eu cofnodi ar y system i adlewyrchu hyn. Mae FCCh hefyd yn darparu cymorth i hwyluso a goruchwylio trefniadau cyswllt uniongyrchol rhwng plant mabwysiedig a'u teulu geni. Mae anghenion cyswllt ar ôl mabwysiadu yn rhan o gynllun y plentyn ac maent yn destun asesiad risg. Mae cynlluniau ar gyfer cyswllt uniongyrchol fel arfer yn cael eu gwneud ar adeg paru plentyn â mabwysiadwyr ac mae cyswllt yn digwydd gyda'r Rheolwr Cymorth Mabwysiadu i ystyried y Cynllun Cymorth Mabwysiadu mewn perthynas â chysylltiad ar ôl mabwysiadu. Mae cynlluniau cysylltiad uniongyrchol yn destun asesiad ac adolygiad risg parhaus.

Mae FCCh hefyd yn rhoi cyngor, cymorth a mynediad at wybodaeth i bobl fabwysiedig a theuluoedd biolegol ar gyfer achosion mabwysiadu a ddigwyddodd cyn mis Rhagfyr 2005 a blaenoriaethir achosion mabwysiadu cyn 1976 o ran amseroedd aros. Gall y cymorth fod ar ffurf gwasanaeth cyfryngu, ond mae hyn yn dibynnu ar ganiatâd a lles y rhai sy'n cymryd rhan. Darperir gwasanaeth i bersonau a fabwysiadwyd ar ôl mis Rhagfyr 2005 hefyd. Mae'r gofynion ar gyfer y maes gwaith hwn wedi'u nodi yn Rheoliadau Mabwysiadu Cyn Cychwyn (Cymru) 2005 a Rheoliadau Mabwysiadu Ôl-gychwyn (Cymru) 2005.

## Y BROSES GWYNO

Mae'r Gydweithredfa yn glynu wrth Weithdrefn Gwyno Cyngor Bro Morgannwg. Ymdrinnir â phob cwyn drwy'r broses hon er y gallai rhai cwynion ymwneud â gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan un o'r awdurdodau partner, a gallai fod angen ymchwilio i'r gŵyn ar y cyd. Mae'r Weithdrefn Gwyno yn cydnabod yr angen i ddatrys cwynion ar y lefel fwyaf anffurfiol bosibl a rhoddir pwyslais ar staff i ymdrechu i ddatrys anawsterau cyn gynted ag y byddant yn codi. Mae gan fabwysiadwyr, darpar fabwysiadwyr, teuluoedd biolegol neu bobl eraill sy'n derbyn gwasanaeth hawl i ddefnyddio'r weithdrefn gwyno os ydynt yn teimlo na allant

ddatrys yr anhawster gyda'r unigolion dan sylw neu eu rheolwyr. Mae'r Weithdrefn Gwyno ar ffurf proses dau gam, sef cam datrys yn lleol ac yna cam ymchwiliad ffurfiol gan berson annibynnol os na ellir datrys y gŵyn ar y cam cyntaf. Gall achwynwyr ddewis mynd i'r cam ffurfiol o'r cychwyn.

Mae taflen ffeithiau **"Cwynion – Sut i gael eich clywed"** sy'n amlinellu'r broses ar gael i bob defnyddiwr gwasanaeth ar gais ac mae hefyd ar gael drwy dudalen we Cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg a gellir gwneud cwyn yn yr iaith o'ch dewis. Ni fydd gohebiaeth na chwynion a wneir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai a wneir yn Saesneg, ac ni fydd oedi wrth ymateb i unrhyw ohebiaeth neu geisiadau a dderbynnir yn Gymraeg.

Mae cofnod o gwynion a chanmoliaeth yn cael ei gadw gan y Gydweithredfa ac Adran Cwynion yr awdurdod lleol a defnyddir gwybodaeth i wella ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth.

## MONITRO A GWERTHUSO'R GWASANAETH

Mae llywodraethiant y Gydweithredfa yn cael ei strwythuro drwy Fwrdd Rheoli a Grŵp Gweithredol ar y Cyd. Mae Cytundeb Cydweithredu ar waith, wedi'i lofnodi gan bob un o'r awdurdodau partner, sy'n manylu ar strwythur llywodraethu a rolau a chyfrifoldebau pob un o'r partïon.

Mae'r Cydbwyllgor yn cynnwys aelod etholedig o bob un o'r awdurdodau partner a'u priod Benaethiaid Gwasanaeth, Cadeirydd y Bwrdd Rheoli a'r Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol. Mae'r Cydbwyllgor yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ac mae'n gyfrifol am gymeradwyo Cynllun Blynyddol, Adroddiad Blynyddol a chyllideb flynyddol y FCCh ar gyfer y Gydweithredfa. Mae'r Cydbwyllgor yn cael ei gadeirio gan Aelod o un o'r asiantaethau partner bob dwy flynedd.

Mae'r Bwrdd Rheoli yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaeth o'r pedwar awdurdod partner lleol gydag aelodaeth o asiantaeth fabwysiadu wirfoddol, Iechyd ac Addysg a'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob chwarter ac mae'n cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol o un o'r awdurdodau partner bob dwy flynedd.

Mae'r Grŵp Gweithredol yn cynnwys Rheolwyr Gweithredol o bob un o'r awdurdodau partner a Rheolwyr FCCh ac mae'n cyfarfod bob chwarter. Mae'r Grŵp Gweithredol yn cael ei gadeirio gan un o'r Rheolwyr Gweithredol ar sail dair blynedd.

Mae perfformiad y rhanbarth yn cael ei fesur yn erbyn Fframwaith Rheoli Perfformiad a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru. Rhaid i'r gwasanaeth rhanbarthol adrodd yn erbyn y fframwaith hwn i Gyfarwyddwr Gweithrediadau y GMC bob chwarter a phob blwyddyn.

Mae'r Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol yn adrodd ar berfformiad y rhanbarth i'r Cydbwyllgor, y Bwrdd Rheoli, y Grŵp Gweithredol ac i Bwyllgorau Craffu awdurdodau lleol ym mhob un o'r awdurdodau lleol yn y rhanbarth yn flynyddol.

Mae rheoliad 39 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019 yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gynnal Adolygiad o Ansawdd y Gwasanaeth bob chwe mis. Mae'r adolygiadau hyn yn sail i'r adroddiad blynyddol i'r Pwyllgorau Craffu.

Mae effeithiolrwydd y gwasanaeth yn cael ei fonitro a'i werthuso mewn sawl ffordd:

- **Cynllun Gwella Blynyddol -** Mae'r cynllun yn nodi'r camau sydd eu hangen i wella perfformiad y gwasanaeth a'r ddarpariaeth gwasanaeth. Mae'r cynllun yn cael ei gymeradwyo gan yr awdurdodau partner ac mae'r GMC yn gofyn amdano fel rhan o'r gofynion adrodd rhanbarthol
- **Goruchwyliaeth -** Mae'r holl staff a gyflogir yn y gwasanaeth mabwysiadu yn destun goruchwyliaeth unigol reolaidd yn unol â Pholisi Goruchwylio Bro Morgannwg
- **Cyfarfodydd Tîm -** Mae timau unigol yn cwrdd yn rheolaidd i drafod materion penodol i'r gwasanaeth ac mae cyfarfod o dîm y gwasanaeth cyfan yn cael ei hwyluso bob deufis. Mae'r cyfarfodydd hyn yn ystyried perfformiad a ffyrdd o wella'r ddarpariaeth gwasanaeth
- **Panel Mabwysiadu -** Mae'r Panel Mabwysiadu yn darparu swyddogaeth sicrhau ansawdd ac yn rhoi adborth i'r gwasanaeth am ansawdd y gwaith a gyflwynir
- **Adborth gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth -** Mae FCCh yn annog adborth gan unrhyw berson sy'n derbyn gwasanaeth gan y Gydweithredfa. Mae arolygon defnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas â gwasanaethau penodol ar waith ac mae'r canfyddiadau yn cael eu coladu'n ganolog. Mae system o wiriadau gyda theuluoedd mabwysiadol flwyddyn ar ôl gwneud y Gorchymyn Mabwysiadu ac wedi tair blynedd wedi'i datblygu ac mae'r canfyddiadau'n cael eu coladu'n ganolog a'u hadrodd i'r gwasanaeth. Mae system i geisio barn rhieni biolegol ar ôl gwneud y Gorchymyn Mabwysiadu wedi'i datblygu. Defnyddir y wybodaeth hon i lywio adolygiadau o ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan FCCh
- **Strwythur llywodraethu -** Mae'r fframwaith adrodd mewn perthynas â'r gwasanaeth a ddarperir gan FCCh fel yr amlinellir yn y Cytundeb Cydweithredu yn darparu mecanwaith arall ar gyfer gwerthuso'r gwasanaeth a nodi bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth
- **Canmoliaeth -** Mae cofnod o ganmoliaeth sy'n dod i law yn cael ei adrodd a'i gofnodi'n ganolog

- **Cwynion a sylwadau -** Mae cwynion a sylwadau sy’n dod i law hefyd yn cyfrannu at brosesau monitro a gwerthuso'r gwasanaeth gan ddarparu gwybodaeth am dueddiadau gwasanaeth a bylchau yn y ddarpariaeth

**STRWYTHUR SEFYDLIADOL A STAFFIO**

Mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli gan Reolwr Mabwysiadu Rhanbarthol a phedwar Rheolwr sy'n rheoli swyddogaethau gwasanaeth Recriwtio ac Asesu, Canfod Teulu, Cymorth Mabwysiadu a'r Tîm Cymorth Busnes. Mae'r Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol yn adrodd i Bennaeth Gwasanaethau Plant Cyngor Bro Morgannwg.

Mae'r holl staff yn y gwasanaeth yn cael eu cyflogi gan Gyngor Bro Morgannwg. Mae’r gwasanaeth yn cynnwys 5 swydd reoli, 14 swydd Gwaith Cymdeithasol llawn amser, 18 swydd Gwaith Cymdeithasol rhan-amser, 4.5 swydd Swyddog Gofal Cymdeithasol, 1 swydd Swyddog Recriwtio a Marchnata llawn amser a 2 swydd Cymorth Busnes llawn amser a 5 swydd Cymorth Busnes rhan-amser.

Mae strwythur sefydliadol a staffio wedi'i gynnwys dan Atodiad 1.

Mae'r Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol yn gymwysedig ac yn brofiadol ar ôl cael ei gyflogi ym maes gofal cymdeithasol ers 2008. Mae gan y rheolwr radd mewn Gwaith Cymdeithasol (BA) a Thystysgrif Ôl-raddedig mewn Rheoli Ansawdd Ymarfer mewn Gofal Cymdeithasol.

Mae'r holl Weithwyr Cymdeithasol a gyflogir yn y gwasanaeth yn ymarferwyr profiadol sydd â chymwysterau proffesiynol ac wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae gan bob un ohonynt dros dair blynedd o brofiad ôl-gymhwyso mewn gofal plant statudol a mabwysiadu. Mae'r ymarferwyr nad ydynt wedi cymhwyso sy’n cael eu cyflogi gan y gwasanaeth yn cael eu goruchwylio gan Reolwr Tîm cymwysedig priodol.

**CYFEIRIAD AGGCC A MANYLION CYSWLLT**
Mae Gydweithredfa Fabwysiadu’r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd yn cael ei rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Cyfeiriad yr Arolygiaeth yw:

Swyddfa Llywodraeth Cymru,
Parc Busnes Rhyd-y-car,
Merthyr Tudful,
CF48 1UZ

0300 790 0126
acg@llyw.cymru

**Cydweithfa Fabwysiadu’r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd Mai 2026**

## Atodiad 1: Strwythur Staff

